# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol




## Wythnos yma

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at Tregŵyl heddiw! Mae'r haul yn tywynnu ac mae awyrgylch bendigedig ar y safle wrth i ni baratoi i groesawu holl gymuned Ysgol Treganna i'r ysgol.
Bydd Naw, Bollt, Penbleth, Al Lewis a Dadleoli yn perfformio ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu cefnogaeth.

Mae pob blwyddyn wedi creu stondin felly dewch draw i gefnogi'r gweithgareddau.Yn ogystal, mae bwyd ar gael a bydd y bar ar agor drwy'r digwyddiad.

Diolch o galon i Jake Collins a Caleb Griffiths am y cymorth technegol, i Fro Edern am gael benthyg y llwyfan, i'r GRhA am ei holl waith anhygoel yn trefnu, ac i'r gwirfoddolwyr a'r staff sy'n helpu drwy'r dydd.

Croeso cynnes i bawb a bydd Tregŵyl yn cychwyn yn syth ar ôl ysgol am 3.30.

## Calendr

**Mabolgampau Bl 3 a 4 Ysgol Treganna Gorffennaf y 1af**

**Mabolgampau Derbyn, Bl 1 a Bl 2 Ysgol Treganna Gorffennaf y 7fed**

**Mabolgampau Bl 5 a 6 Stadiwm Leckwith Gorffennaf y 10fed**

# Chwaraeon yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm a gystadlodd dros y penwythnos ym Mhencampwriaeth Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth.

Cynrychiolodd dîm rygbi cymysg Blwyddyn 4 a'r tîm pêl-droed merched Blwyddyn 5 a 6  sir Caerdydd yn y pencampwriaethau, gan gystadlu yn erbyn ysgolion o bob cwr o Gymru.

Perfformiodd y ddau dîm yn arbennig o dda ac roeddent yn glod i'r ysgol, gan ddangos dyfalbarhad,dygnwch a brwdfrydedd drwy gydol y twrnamaint.

Diolch o galon i Mr Evans a Mr Chapman am hyfforddi'r timau ac am eu hymroddiad parhaus. Hoffem hefyd ddiolch i'r noddwyr am y citiau: Steffan Garrero, Distant Pod a Jeffrey Ross.






# Y Nyth

**Dysgu fel Teulu – Ditectifs Natur**

Diolch i'r holl deuluoedd a ymunodd â'n gweithgareddau Ditectifs Natur dros yr wythnosau diwethaf.

Roedd yn wych gweld plant a rhieni'n archwilio'r awyr agored ac yn darganfod rhyfeddodau byd natur gyda'i gilydd.

Diolch arbennig i Kate Teruel-Serrano o Goleg Caerdydd a'r Fro am arwain sesiynau mor ddifyr.

Edrychwn ymlaen at gynnig gweithdy teuluol arall yn ystod tymor yr hydref.

# Rhieni Newydd y Feithrin

Roedd yn hyfryd croesawu'r dosbarth Meithrin newydd i'r ysgol yr wythnos hon wrth i ni baratoi ar gyfer mis Medi. Roedd y neuadd yn orlawn o wynebau cyfarwydd ag wynebau newydd, ac roedd yn bleser croesawu pawb i deulu Treganna.

Rydym yn hynod falch o'n darpariaeth Meithrin, sy'n meithrin mentergarwch, disgwyliadau uchel, a chwilfrydedd ymhlith ein disgyblion ieuengaf. Cafodd y Feithrin ei chydnabod gan Estyn am y safonau uchel a'r annibyniaeth arbennig a welwyd yno, rhywbeth rydym yn falch iawn ohono fel ysgol.

Mae gennym gynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer y Feithrin y flwyddyn nesaf, ac rydym yn edrych ymlaen at eu rhannu gyda chi yn ystod y tymor nesaf!

Croeso cynnes unwaith eto i'n teuluoedd newydd.

# Patrwm Iaith yr Wythnos

Ble mae dy…?
(Het/bag/potel)
**Her**
Mae fy…ar y/wrth ymyl y/yn y ….

**Testun Trafod yr wythnos**
A ddylai plant gael bwyta pwdin cyn pryd bwyd?
**Cân yr wythnos**
Un Am y Lôn - Yws Gwynedd
**Idiom yr wythnos**
Bod yn gefn i rywun